**COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANGERNYW**
**MEDI 25AIN 2024 AM 7:30YH**
**CYNHALIWYD YNG NGWYTHERIN**

## 1 CROESO AC YMDDIHEURIADAU

**1.1** Croesawyd pawb gan Clwyd Roberts (CR)

**1.2** Presennol: Jane Roberts (JR), Ann Vaughan (AV), Diane Roberts (DR), Sara Thomas (ST), Gwydion Jones (GJ), Euros Williams (EUW), & Catrin Griffiths (Clerc, CWG)

**1.3** Ymddiheuriadau: Austin Roberts (AR), Myrddin Davies (MGD), Einir Williams (EW)

## 2 DATGANIAD DIDDORDEB

Dim datganiad.

## 3 COFNODION GORFFENNAF 17EG 2024 I'W GWIRIO

Cynigwyd yn gywir gan DR ac eilwyd gan AV .

## 4 MATERION YN CODI

**4.1** Beicio'n ddiogel – dywedodd AV fod arwyddion wedi eu gosod o Lanfair Talhaiarn am Abergele ond bydd yn eu cyfarfod yn fuan i ddweud ble mae ei heisiau yn iawn. Ar y funud maent wedi eu gosod gyda cheblau sydd yn chwythu yn y gwynt ac mae'r arwyddion yn troi rownd ac felly ddim yn addas. Hefyd, nododd AV fod cyflwr yr Hen Siop yn gwaethygu a'i bod wedi cael cadarnhad pwy sydd berchen arno. Atgoffodd AV am y twb blodau sydd wedi torri yng Nglan Collen hefyd a bydd angen gofyn i AR am ddiweddariad.

**4.2** Dŵr Cymru - mae holl drigolion yr ardal wedi derbyn llythyr ganddynt yn ddiweddar yn sôn am y problemau dros y misoedd diwethaf.

**4.3** Hysbysfwrdd Gwytherin – EUW wedi cael gwybod dros yr haf nad yw werth ei atgyweirio. Penderfynwyd i EUW ofyn i Geraint am roi pris i gael un newydd.

**4.4** Pen y Bont - bagiau sbwriel yn hel llygod mawr ond mae AR yn ymwybodol ac wrthi'n datrys y broblem.

**4.5** Arwyddion VAS – CWG wedi clywed yn ôl gan Richard Roberts ynglŷn â'r gwahaniaeth ym mhris arwyddion Sir Ddinbych a Chonwy. Cafodd yr arwyddion presennol eu dewis gan gyn-reolwr yno a bydd yn cael sgwrs gyda'i reolwr llinell rhag ofn bod angen iddynt ail-edrych ar hyn i'r dyfodol.

**4.6** Darren Millar – mae'n gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod ym Mhandy Tudur ar Hydref 30ain. Hefyd, bydd iddo anfon e-bost dros yr haf gyda llythyr a gafodd gan Gyngor Conwy ynglŷn â'r arwyddion beicio'n ddiogel. Mae wedi bod yn mynd ar eu holau nifer o weithiau i gael yr arwyddion at Langernyw.

**4.3** Mae diffibrilydd newydd wedi ei osod ar du allan y Stag ar 13.9.24. Bydd angen trefnu amser ar gyfer llun i'r Gadlas. Hefyd, CWG i ofyn i Tomos Hughes beth sy'n addas fel cyfraniad ar gyfer y defnydd o drydan.

**4.4** Archwiliad - dal heb gael y wybodaeth ynglŷn â'r TAW gan Iona ac felly mi roedd raid cyflwyno popeth fel ag yr oedd erbyn y dyddiad cau. Mi wnaethant ddweud y byddai'n bosib e-bostio'r wybodaeth ychwanegol pan mae'n barod gan y cyfrifydd.

**4.5** Mynwent Llangernyw – dywedodd AV fod y gwair sydd wedi ei adael ar gyfer bywyd gwyllt wedi ei dorri yn ddamweiniol gan griw sydd wedi bod yn gwneud gwasanaeth cymunedol. Mae

wedi siarad gyda Dei Evans i egluro'r sefyllfa. Mae'r criw hefyd wedi cysylltu yn gofyn a allent dorri'r gwair eto ond mae gennym gytundeb gyda Dei i wneud hyn. CWG i gysylltu yn ôl gyda Steve i egluro hyn.

## 5 CEISIADAU CYNLLUNIO

**5.1** Cais Rhif 0/51880 Gwynant, 3 Glandwr Terrace, Pandy Tudur LL22 8UL
Dywedwyd fod y datblygiad yn bwysig er mwyn diogelu eiddo ac roedd pawb yn cefnogi.

**5.2** Cais Rhif 0/51930 Fron Deg, Llanrwst, LL26 0NT
Pawb yn cefnogi.

**5.3** Cais Rhif 0/51955 Bryn Celyn, Pandy Tudur LL22 8UL
Pawb yn cefnogi.

## 6 MATERION CYNGOR

**6.1** Swyddfa'r bost wedi gyrru ymateb i lythyr AR yn ystod y mis yn dweud eu bod wedi monitro'r defnydd ac nad oes digon o alw felly bydd yn cau. Mae CWG wedi gyrru llythyr i'r swyddfa bost hefyd yn mynegi pryder am golli'r adnodd gwerthfawr i'r ardal ond nid ydynt wedi ymateb. Nododd JR fod y bostfeistres wedi bod yn dweud bod y swyddfa bost yn agor yr wythnos nesaf drwy'r adeg ond yn wir roedd wedi ymddiswyddo ers mis Mai a byddai hyn wedi effeithio ar arolwg o'r defnydd ohono. Mae Darren Millar yn delio gyda'r sefyllfa.

**6.2** Gan fod Mark Davies wedi ymddiswyddo fel cynghorydd bellach, penderfynwyd i CWG ofyn i HSBC i newid y mandad banc drwy dynnu ei enw oddi-yno.

**6.3** Sedd Wag – mae DR wedi siarad gydag aelod o'r cyhoedd sy'n awyddus a bydd yn cyflwyno llythyr cais yn fuan. Mae JR hefyd yn ymwybodol o aelod arall o'r cyhoedd sydd gyda diddordeb ac felly penderfynwyd i roi dyddiad cau o Hydref 30$^{ain}$ sef y pwyllgor nesaf.

## 7 ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR

**7.1** Tŷ Ucha - cais teulu'r Frwynos wedi'i ganiatau .
**7.2** Swyddfa Bost - dwi eisoes wedi anfon ymateb y swyddfa bost atoch, hoffwn i chwi fel Cyngor Cymuned anfon e-bost atynt hefyd.
**7.3** Ffordd Tŷ Newydd Pennant - roedd cyflwr y cylfert/pont wedi gwaethygu felly mae'r cyngor wedi gwneud gwaith dros dro arno a bydd na cylfert / pont newydd mewn lle gobeithio erbyn Haf nesaf.
**7.4** Pontydd Pandy a Llangernyw yn dal i gael eu harchwilio yn rheolaidd.
**7.5** Allt Waterloo - bydd y gwaith ar y wal yn cael ei gyflawni diwedd eleni / cychwyn blwyddyn nesaf.
**7.6** Ysgubor newydd - y gwaith ar yr A548 wedi'i gwblhau a'r goleuadau wedi diflannu.
**7.7** Y Dafarn Newydd / Holland Arms - ail-wynebu'r B5113 rhyw 100 medr bob ochor i'r dafarn wythnos yma neu wythnos nesaf.
**7.8** Glan Collen - mae Catrin wedi derbyn cwyn gan un o breswylwyr y stad yn y goryrru ar ffyrdd y stad. Bydd y cyngor yn gosod monitor cyflymder yno am fis.

## 8 MATERION ARIANNOL

**8.1** Llythyr gan Celebral Palsy Cymru yn gofyn am gyfraniad. Penderfynwyd i beidio cyfrannu.
**8.2** Wedi cael tri pherson yn cytuno gyda thalu 2 anfoneb yn ystod y mis ar gyfer 2 set o badiau oedd yn gorffen ar Awst 23$^{ain}$ ac un arall am y diffibrilydd a'r cabinet felly mae CWG wedi ei dalu.
**8.3** Hysbysiad taliad praesept gan CBSC ar 15.08.24 o £3409
**8.4** Wedi derbyn e-bost gan Archwilio Cymru yn dweud bod anfoneb eithriadol ar gyfer Awdit 2017-8 sef swm o £507.60. Dywedodd DR fod Bodelwyddan wedi gofyn am fil wedi ei

eitemeiddio a hefyd gofynnodd a oes hawl i anfon biliau ers cyhyd? Roedd y Cyngor Cymuned yn arfer talu tua £345 yn y cyfnod yma ac nid yw'n deg o ran arian y praesept. Penderfynwyd i CWG ofyn wrth Archwilio Cymru am fil wedi ei eitemeiddio.
**8.5** E-bost gan yr Urdd yng Ngonwy yn gofyn am gyfraniad. Penderfynwyd i beidio cyfrannu.

## 9 GOHEBIAETH

**9.1** Wedi derbyn e-bost dros yr haf yn gofyn am fanylion cyswllt y '*North Wales Pilgrim's Way Group'* a drafodwyd yng nghyfarfod mis Mai. CWG wedi ymateb gyda'r manylion.

**9.2** Wedi derbyn e-bost gan Gofgolofnau'r Dyffryn yn gofyn a yw *'kerbsets'* yn cael eu caniatau - wedi ymateb nad ydynt bellach oherwydd hwyluso gwaith torri gwair. CWG wedi gyrru'r e-bost ymlaen i Austin ac roedd am ofyn i'r Cyngor Sir os wnaent ddarparu'r arwyddion. Ategodd JR fod y broblem yn un difrifol. Dywedodd EUW efallai y byddai twmpathau cyflymder yn well. Gan fod AR wedi sôn bod monitro yn digwydd yna penderfynwyd i CWG ofyn iddo pryd yn union y byddai hyn yn cymryd lle gan ei bod yn bryder mawr i bawb.

**9.3** Wedi derbyn llythyr yn ôl gan Gyngor Conwy parthed y problemau gyda'r sgipiau. Ynddo roeddynt yn nodi nad ydynt yn meddwl fod angen i gynghorau cymuned ddefnyddio cwmniau preifat gan fod amrywiaeth o ddarpariaeth ac opsiynau ar gyfer ailgylchu a gwaredu gwastraff yn bodoli.

Wedi ei yrru ymlaen i bawb er gwybodaeth:
**9.4** Pecynnau perllan gymunedol am ddim gan Cadwch Gymru'n Daclus
**9.5** Lansiad ymgynghoriad - rôl, llywodraethiant ac atebolrwydd y sector cynghorau tref a chymuned - e-bost gan Un Llais Cymru
**9.6** Lansio'r Gymuned Ddefnyddwyr Digidol ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref gan Un Llais Cymru
**9.7** Ymgynghoriad ynghylch Treth y Cyngor gan Gyngor Sir Conwy
**9.8** Canllaw i Arolwg 2026 gan Lywodraeth Cymru
**9.9** Gwybodaeth am 'Cynlluniau Lle' gan Gyngor Sir Conwy
**9.10** Cyflwyniad gan Archwilio Cymru i Bwyllgor y Cyngor Mwy
**9.11** Cadwch Gymru'n Daclus - pecynnau gerddi am ddim
**9.12** Enwebiadau ar gyfer Swyddogion Pwyllgor Ardal Conwy a Sir Ddinbych / Conwy Un Llais Cymru
**9.13** Cynhadledd Genedlaethol Un Llais Cymru yn Llanelwedd ar 16.10.24
**9.14** Dyddiadau hyfforddiant mis Awst a Medi Un Llais Cymru
**9.15** Archwiliad ynni adeilad cymunedol am ddim gan Gyngor Conwy
**9.16** Ymgynghoriad premiwm treth y cyngor (ail-atgoffa, y dyddiad cau yw Awst 18)
**9.17** Cwrs ar lein Cyflwyniad i Weithredu Cymunedol yr Eden Project
**9.18** Adnoddau am ddim i helpu i fynd i'r afael â thipio anghyfreithlon yn eich cymunedau gan Un Llais Cymru
**9.19** E-bost gan Dŵr Cymru yn rhoi gwybodaeth am beth sydd wedi bod yn digwydd yn ddiweddar.
**9.20** Newyddion gan y Tîm Cymorth Argyfwng Costau Byw gan Un Llais
**9.21** Gwobrau Bionet Un Llais Cymru
**9.22** Cymuned Ymarfer Ddigidol Un Llais Cymru ar Fedi 10fed am 2 o'r gloch
**9.23** Cyswllt Cynghorau a Chynlluniau Costau Byw gan Un Llais Cymru
**9.24** Digwyddiad ar y cyd rhwng SLCC ac Un Llais Cymru - 20.11.24 yn rhithiol
**9.25** Datblygu Dan Arweiniad y Gymuned yng Nghonwy
**9.26** Dyddiadau hyfforddiant mis Medi i Ragfyr gan Un Llais Cymru

## 10 BILIAU

**10.1** Dei Evans - torri gwair yn y mynwentydd ar gyfer mis Awst - £460, hefyd bil am fis Medi o £460 ac am strimio'r ochr yng Ngwytherin o £180, cyfanswm = £1,100.
**10.2** Bil am drydanwr i osod y diffibrilydd ar y Stag - nwyddau = £67.76, llafur = £189, cyfanswm = £256.76
**10.3** Bil am gynnal a chadw'r wefan gan Arfon Parry o cradur.com - £178
**10.4** Bil cyfieithu Enlli - £95

Cytunodd pawb i dalu'r uchod i gyd.

**11 MATERION LLEOL**
**ST** Dywedodd bod mieri ac eiddew yn tyfu ar y ffordd wrth ymyl Pen Fron. Penderfynwyd i CWG ofyn i AR os yw'r cyngor yn gallu ei dorri.

**DR** Dywedodd ei bod wedi cael paent glas am ddim gan aelod o'r cyhoedd ar gyfer y tybiau blodau pren ond penderfynodd pawb y byddai'n well eu cadw yn wyrdd. Mae wedi cael gwybod bod rhywun eisiau prynu'r cae wrth gefn yr ysgol. Hefyd, mae wedi bod yn brwsio'r arhosfa bws wrth y siop a'i lanhau gan fod sos coch wedi ei daflu dros y waliau. Mae am ei baentio a'i lanhau'n well hefyd. Yn ogystal, mae wedi llenwi'r fasged grog gyda blodau ac wedi rhoi staen ar yr hysbysfwrdd. Yn anffodus, mae top yr hysbysfwrdd yn dirywio. Mae'n poeni am oryrru drwy'r pentref ac yn pasio'r rhifau cerbyd a'r model ymlaen i'r heddlu. Gofynnodd am ganiatad i fynychu cwrs ymgysylltu a'r gymuned ac roedd pawb yn cytuno.

**EUW** Dywedodd bod ffens gwyn haearn wrth y groesffordd wrth ymyl Ty'n Bryn, Ty'n caeau a Phont Syllty angen ei atgyweirio. Penderfynwyd i CWG ofyn i AR os yw'r cyngor yn gallu gwneud hyn. Hefyd, mae cŵn dal i fynd i mewn i'r cae chwarae gan neidio dros yr arwydd dim cŵn. Penderfynwyd i CWG adrodd hyn yn ôl i AR.

**JR** Dywedodd bod ffordd Hafodunos yn andros o gul a drain yn tyfu. Mae wedi cael sylwad gan aelod o'r cyhoedd yn dweud bod llawer o *'Air BnBs'* ym mhentref Llangernyw a llawer o bobl yn cerdded cŵn i fyny heibio Fedwen Arian.

**AV** Dywedodd bod 2 dwb blodau ym mynwent yr Eglwys wedi eu hail-lewni a'i bod wedi cael llythyr gan aelod o'r cyhoedd sydd eisiau plannu coeden er cof am aelod o'r teulu. Maent yn gofyn am leoliad addas yn yr ardal i'w phlannu a hefyd awgrym o sut fath o goeden y dylai brynu. Dywedodd JR y byddai gwaelod y fynwent yn yr ardal bywyd gwyllt yn addas ac roedd pawb yn cytuno. Cafwyd trafodaeth am y math o goeden a phenderfynwyd bod un ai acer, fedwen arian neu griafolen yn addas.

Dywedodd AV hefyd bod Cadw Cymru'n Daclus wedi rhoi grant i Amgueddfa'r Cwm i gael '*Incredible Edible*' yno i dyfu llysiau. Maent yn bwriadu bod yn weithgar gyda'r ysgol hefyd. Gofynnodd a fyddai'n bosibl ail-gychwyn y Clwb Garddio. Penderfynwyd cael cyfarfod cyhoeddus i gychwyn un newydd ar 24.10.24 am 19:30 yn Llangernyw. Bydd angen hysbysebu ar *Facebook*, yn yr ysgol, yr hysbysfyrddau ac ar y wefan. Bydd JR yn gofyn i Rhys o Borthmadog sydd ar y rhaglen Garddio a Mwy os allith o fod yn siaradwr gwadd gan ofyn iddo siarad am 20 - 25 munud. Byddai yn bwyllgor agored, heb godi tâl, gyda phwyllgor ar ôl y siaradwr gwadd a CR i arwain ar y noson.

Gan fod y pwyllgor nesaf yn disgyn yn ystod yr hanner tymor, penderfynwyd ceisio ei symud wythnos yn gynharach drwy i CWG ofyn i Darren Millar os y gall fynychu pwyllgor Cyngor Cymuned ar Hydref 23ain yn lle.

**12 CYFARFOD NESAF**
Hydref 30ain (efallai yn symud i Hydref 23ain) 2024 ym Mhandy Tudur.

Cyfarfod yn dod i ben am 21:20 .
Cymerwyd y cofnodion gan CWG.